



Ein cyf: WQ87157

Heledd Fychan AS
Aelod Rhanbarthol o's Senedd Canol De Cymru

Heledd.Fychan@senedd.cymru

8 Chwefror 2023

Annwyl Heledd

Diolch am eich cwestiwn ysgrifenedig diweddar yn gofyn imi pa gynlluniau sydd gennyf i wella amseroedd aros ar gyfer oedolion sy'n aros am wasanaethau colli clyw y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yng Nghymru, o ystyried eu bod wedi cynyddu 142 y cant ers mis Awst 2021, er bod nifer o fyrddau iechyd wedi symud eu gwasanaethau o'r ysbty i feddygon teulu.

Fel gyda llawer o wasanaethau, rydym wedi gweld cynnydd yn y galw ers codi'r cyfyngiadau Covid 19, wrth i ragor o bobl deimlo'n ddiogel wrth ddefnyddio gwasanaethau'r GIG. Mae perfformiad yn erbyn y targed 14 wythnos yn amrywio ar draws pob bwrdd iechyd wrth iddynt ailgynllunio eu gwasanaethau, ond mae ystadegau mis Tachwedd yn dangos bod cyfanswm o **7,576** o gleifion yn aros am eu cymorth clyw cyntaf gan y gwasanaeth Awdioleg, sydd **80%** yn uwch na'r ffigur o **4,186** ym mis Awst 2021.

Mae gwasanaeth awdioleg Cymru mewn sefyllfa gref iawn ar hyn o bryd, ac mae wedi datblygu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf ers cyhoeddi'r Fframwaith Gweithredu ar gyfer pobl sy'n F/fyddar a'r rhai sy'n byw â cholled clyw neu nam ar y clyw.

Rydym yn parhau i drawsnewid gwasanaethau ac integreiddio awdioleg yn y 60 o Glystyrau Gofal Sylfaenol lleol ledled Cymru. Mae gwasanaeth awdioleg GIG Cymru yn darparu llwybrau mwy integredig a darpariaeth sy'n gyson â pholisi GIG Cymru o sicrhau gofal cydgysylltiedig, cydweithredol. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cyd-fynd â holl gynlluniau strategol Llywodraeth Cymru.

Mae llwybrau GIG Cymru, sydd â safonau clinigol cenedlaethol ar gyfer darparu gwasanaethau gofal clyw, yn cael eu rhoi ar waith ar draws yr holl fyrddau iechyd, ac mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe wedi gwneud cynnydd pellach. Mae'r byrddau iechyd arweiniol yn rhannu arferion da ac yn gweithio gyda'r byrddau iechyd eraill i'w helpu i roi'r llwybrau ar waith ledled Cymru.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Pan fydd y llwybrau yn eu lle, bydd cleifion yn cael eu hatgyfeirio at wasanaeth awdioleg gofal sylfaenol, lle bydd gofal clyw yn cael ei ddarparu am ddim gan Uwch-ymarferwyr Awdioleg. Bydd hyn yn rhyddhau apwyntiadau mewn gwasanaethau gofal eilaidd a gwasanaethau meddygon teulu.

Mae gan wasanaethau awdioleg Cymru enw da ymhlith Llywodraethau eraill y DU a gweithwyr iechyd proffesiynol ym maes awdioleg. Yn benodol, ystyrir bod y safonau ansawdd a'r archwiliadau cysylltiedig yn gadarn ac yn hanfodol er mwyn sicrhau safonau gofal o ansawdd uchel, gwerth am arian, a pharhad gofal i gleifion yn GIG Cymru.

Yn gywir

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'M. E. Morgan'.

Eluned Morgan AS/MS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services